Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllaw am hawliau plant, eu rhieni a phobl ifanc o dan y system anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

Gorffennaf 2026

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn Hawdd ei Ddeall o: **Canllaw am hawliau plant, eu rhieni a phobl ifanc o dan y system anghenion dysgu ychwanegol (ADY).**




Efallai y byddwch chi angen help i'w darllen o hyd. Rydych chi'n gallu gofyn i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Ble mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn golygu **Llywodraeth Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:

**E-bost:**
YGangenAnghenionDysguYchwanegol@llyw.cymru

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Ddeall. Cliciwch yma i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl.

# Cynnwys


Am y ganllaw hon .......... 4

Beth ydy'r system ADY .......... 6

Hawliau o dan y system ADY .......... 7

Y cynllun datblygu unigol .......... 10

Os ydych chi'n anghytuno â phenderfyniadau .......... 15

Cael cymorth i siarad .......... 17

Pa gymorth sydd ar gael .......... 20

Cwynion a phryderon .......... 21

Cael help gan ffrind achos .......... 22


Mwy o wybodaeth .......... 23

Dolenni defnyddiol .......... 24

# Am y ganllaw hon



Yng Nghymru, mae system i helpu plant a phobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol i ddysgu.



Mae'r cymorth yma yn cael ei alw yn system anghenion dysgu ychwanegol. Rydyn ni'n galw hyn y system ADY yn fyr.




Mae'r ganllaw Hawdd ei Ddeall hon yn esbonio hawliau plant, eu rhieni neu gofalwyr, a phobl ifanc yn y system ADY.

Mae'r ganllaw hon yn esbonio:



- Beth i'w wneud os ydych chi'n anghytuno â phenderfyniadau mae meithrinfa, ysgol, coleg neu'r cyngor lleol yn eu gwneud.



- Pa gymorth sydd ar gael drwy'r system ADY.



Yn y ganllaw hon, pan rydyn ni'n dweud **rhiant** mae hefyd yn golygu unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb dros blentyn. Neu unrhyw un sy'n gofalu am blentyn.

# Beth ydy'r system ADY



Mae'r system ADY yng Nghymru yn helpu plant a phobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol i ddysgu.




Mae'n gwneud yn siŵr eu bod nhw'n cael y help cywir fel eu bod nhw'n gallu gwneud eu gorau.



Mae rhagor o wybodaeth am y system ADY ar gael yma: llyw.cymru/anghenion-dysgu ychwanegol-aln-rhieni-a-gofalwyr-pecyn cymorth

# Hawliau o dan y system ADY



Mae gan blant hawliau o dan y system ADY. Mae'r rhan fwyaf o'r hawliau yma hefyd yn berthnasol i'w rhieni.



Os ydy plentyn yn 16 oed, maen nhw'n cael eu galw yn berson ifanc. Mae gan berson ifanc yr hawl i wneud penderfyniadau am gymorth ADY.




Mae hyn yn meddwl bod rhaid iddyn nhw ddweud ie a chytuno cyn gwneud penderfyniadau.



Does gan rieni ddim yr un hawliau ar ôl i'r plentyn ddod yn berson ifanc.

# Hawliau plant a phobl ifanc





1. Os oes ganddyn nhw ADY, fe fydd ganddyn nhw **gynllun datblygu unigol**. Mae heyfd yn cael ei alw'n **CDU**. Mae'r **CDU** yn dangos sut fyddan nhw'n cael eu cefnogi.



2. Maen nhw'n gallu herio penderfyniadau nad ydyn nhw'n cytuno â nhw.




3. Maen nhw'n gallu gofyn i'w cyngor lleol edrych eto ar benderfyniadau mae meithrinfa neu ysgol yn eu gwneud.



4. Maen nhw’n gallu gofyn am eiriolwr. Dyma rhywun fydd yn siarad ar eu rhan.



5. Maen nhw’n gallu apelio i **Dribiwnlys Addysg Cymru** am rai penderfyniadau. Mae’n cael ei alw **TAC** hefyd.



Mae’r Tribiwnlys yn annibynnol. Mae hyn yn golygu ei fod ar wahân i’r bobl sydd wedi gwneud y penderfyniad.



Mae’r Tribiwnlys yn gwrando ar bawb, yn edrych ar yr wybodaeth, ac yn penderfynu beth ddylai ddigwydd nesaf.

# Y cynllun datblygu unigol

## Beth sydd yn y CDU


Fe fydd y CDU yn dweud:




- Yr ADY sydd gan blentyn neu berson ifanc.




- Y gefnogaeth maen nhw ei hangen. Weithiau mae hyn yn cael ei alw’n ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.



- Y gwahaniaeth ddylai’r gefnogaeth ei wneud.



- Manylion am eu cefnogaeth.




Mae pob CDU yn wahanol. Mae wedi ei seilio ar anghenion y plentyn neu'r person ifanc.

## Adolygu'r CDU



Rhaid adolygu'r CDU bob 12 mis. Mae'n gallu cael ei adolygu'n gynharach os oes angen.

# Sut mae'r CDU yn cael ei wneud




Fe ddylid gwneud y CDU gan ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.



Mae hyn yn meddwl rhoi'r plentyn neu'r person ifanc yn gyntaf. Mae'n meddwl bod pobl yn gweithio gyda'i gilydd i feddwl am ba gefnogaeth mae'r plentyn neu'r person ifanc ei hangen.

# Amseroedd ar gyfer y CDU




Fel arfer, fe fydd ysgol yn ysgrifennu CDU o fewn 35 diwrnod ysgol. Mae hyn yn dechrau pan fydd yr ysgol yn darganfod bod gan y plentyn ADY.




Fel arfer, fe fydd coleg yn ysgrifennu'r CDU o fewn 35 diwrnod tymor. Diwrnodau tymor ydy'r dyddiau pan mae'r coleg ar agor i fyfyrwyr.



Mae hyn yn dechrau pan fydd y coleg yn darganfod bod gan y person ifanc ADY.




Fel arfer, mae gan gyngor lleol 12 wythnos i ysgrifennu CDU.

# Cael copi o'r CDU



Rhaid rhoi copi o'r CDU i chi. Rhaid i chi hefyd gael gwybodaeth am beth i'w wneud os nad ydych chi'n cytuno ag ef.

# Os ydych chi'n anghytuno â phenderfyniadau



Os ydych chi'n anghytuno â phenderfyniadau sydd yn cael eu gwneud, rydych chi'n gallu eu herio.



Rydych chi'n gallu siarad â **chydlynydd ADY** yr ysgol yn gyntaf. Mae hefyd yn cael ei alw'n **CADY**. Mae CADY yn helpu i drefnu cymorth i blant sydd ag ADY.




Os ydych chi'n dal i anghytuno, rydych chi'n gallu siarad â'ch cyngor lleol. Mae'n dda ei roi yn ysgrifenedig os ydych chi'n gallu. Rhowch yr holl wybodaeth gallan nhw ei hangen.




Gofynnwch i'r feithrinfa neu'r ysgol roi gwybodaeth i chi am sut i gysylltu â'ch cyngor lleol.




Fe fydd y cyngor lleol yn siarad â’r feithrinfa neu’r ysgol ac yn casglu gwybodaeth. Fe fydd y cyngor lleol wedyn yn gwneud penderfyniad.




Mae gan y cyngor lleol 7 wythnos i wneud ei benderfyniad.

# Cael cymorth i siarad



Eiriolwr ydy rhywun sy'n siarad dros berson arall. Maen nhw'n gallu helpu pobl i rannu beth maen nhw'n feddwl a'u dymuniadau.




Mae gan blant yr hawl i eiriolwr os ydyn nhw angen un.



Neu weithiau mae pobl yn gofyn i ffrind neu aelod o'r teulu siarad drostyn nhw.



Mae eiriolwr yn gallu helpu i ddelio ag anghydfodau ac apeliadau.




Mae'r cyngor lleol yn gallu rhoi gwybodaeth i chi am eiriolwyr.

# Tribiwnlys Addysg Cymru



Mae rhagor o wybodaeth ar wefan Tribiwnlys Addysg Cymru yma: [tribiwnlysaddysg.llyw.cymru](https://tribiwnlysaddysg.llyw.cymru)



Mae’r Tribiwnlys yn delio ag apeliadau am rai penderfyniadau ADY. Mae apêl yn meddwl gofyn am benderfyniad i gael ei ystyried eto.



Mae plentyn, ei riant neu berson ifanc yn gallu apelio yn erbyn rhai pethau ar y CDU.




Mae gennych chi 8 wythnos i apelio. Mae hyn yn dechrau o’r dyddiad ar lythyr y cyngor lleol.

# Gwasanaeth Datrys Anghydfodau



Rydych chi hefyd yn gallu defnyddio Gwasanaeth Datrys Anghydfodau’r cyngor lleol. Mae hwn yn wasanaeth annibynnol sy’n helpu i ddatrys materion am ADY.




Os ydych chi’n defnyddio’r gwasanaeth hwn, mae gennych chi 16 wythnos o’r dyddiad ar lythyr y cyngor.



Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan eich cyngor lleol neu ar eu gwefan.

# Pa gymorth sydd ar gael




Rhaid i’r cyngor lleol roi gwybodaeth i chi am y system ADY.



Mae gwybodaeth am gymorth gan eich cyngor lleol yma: [llyw.cymru/cael-help-gydag-anghenion-dysgu-ychwanegol-gan-eich-awdurdod-lleol](llyw.cymru/cael-help-gydag-anghenion-dysgu-ychwanegol-gan-eich-awdurdod-lleol)



Rydych chi hefyd yn gallu cael cymorth a gwybodaeth gan yr ysgol neu’r coleg neu ar eu gwefan.




Mae cyngor a chefnogaeth hefyd yn ein [Pecyn cymorth i rieni a gofalwyr plant ag ADY](Pecyn cymorth i rieni a gofalwyr plant ag ADY).

# Cwynion a phryderon



Os nad ydych chi'n hapus gyda'ch gofal neu driniaeth GIG, rydych chi'n gallu dweud wrth rhywun. Mae mwy o wybodaeth ar gael yma: Gwrando ar Bobl.



Ceisiwch siarad gyda'r staff dan sylw cyn gynted ag rydych chi'n gallu. Efallai byddan nhw'n gallu datrys y broblem ar unwaith.



Os nad ydy hyn yn helpu, rydych chi'n gallu cysylltu gyda'r tîm cwynion yn eich bwrdd iechyd neu ymddiriedolaeth GIG yma: llyw.cymru/cwynion-phryderon-am-gig-cymru-gweithio-i-wella

# Cael help gan ffrind achos



Efallai y bydd rhai plant neu bobl ifanc angen help i ddeall eu hawliau o dan y system ADY. Mae ffrind achos yn gallu:

- Siarad drostyn nhw.
- Eu cefnogi nhw i wneud penderfyniadau.
- Eu helpu nhw i ddeall mwy am ADY.
- Gwneud apêl i Dribiwnlys Addysg Cymru.



Rydych chi neu'ch plentyn yn gallu gofyn i Dribiwnlys Addysg Cymru am ffrind achos.

# Mwy o wybodaeth



Mae mwy o wybodaeth am y system ADY ar ein gwefan: [llyw.cymru/anghenion-dysgu-ychwanegol-pecyn-cymorth-rhieni-gofalwyr](llyw.cymru/anghenion-dysgu-ychwanegol-pecyn-cymorth-rhieni-gofalwyr)




Rydych chi'n gallu cysylltu â'r gangen ADY yn Llywodraeth Cymru:



**Drwy e-bost:**

YGangenAnghenionDysguYchwanegol@llyw.cymru



**Drwy ysgrifennu atyn nhw:**

Cangen ADY

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

# Dolenni defnyddiol



- Anghenion dysgu ychwanegol: tudalen canllawiau i rieni a gofalwyr

  Mae'r dudalen hon yn helpu rhieni a gofalwyr i ddeall y system ADY a'r cymorth sydd ar gael.



- Tribiwnlys Addysg Cymru

  Mae'r sefydliad hwn yn gwneud penderfyniadau ar apeliadau am ADY a honiadau o wahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion.



- Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd

  Mae'r gwasanaethau hyn yn rhoi cymorth a chyngor am ddim i deuluoedd, gan gynnwys cymorth anghenion ychwanegol.



- [Niwrowahaniaeth Cymru]

  Mae'r gwasanaeth hwn yn helpu pobl i ddeall niwrowahaniaeth. Maen nhw'n darparu gwybodaeth, hyfforddiant ac adnoddau am ddim.



Mae **niwrowahaniaeth** yn meddwl bod ymennydd rhai pobl yn gweithio mewn gwahanol ffyrdd, fel y bobl sydd ag awtistiaeth ac ADHD.



- [Anabledd Dysgu Cymru]

  Dyma elusen genedlaethol sy'n cynrychioli'r sector anabledd dysgu yng Nghymru.

OGL
© Hawlfraint y Goron 2026
ISBN digidol 978-1-8745-679-6
WG54755

Photosymbols®
Publisher Licence 403527247